# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22 Tachwedd, 2016** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorwyr Dyfrig Siencyn a Peredur Jenkins** |
| **Swyddogion Cyswllt:** | **Arwel E Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679324** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymgynghoriad ar Ddyfodol y Gwasanaeth Tân** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cynnig y sylwadau a nodir yn rhan 4 o'r adroddiad mewn ymateb i ymgynghoriad y Gwasanaeth Tân

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae gwahoddiad i'r Cyngor, fel unrhyw gorff cyhoeddus arall neu ddinesydd yng Ngogledd Cymru i gyflwyno ei sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol sydd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Wrth gwrs, mae'r Cyngor yn enwebu cynrychiolwyr i eistedd ar yr Awdurdod Tân a gwahoddwyd y cynrychiolwyr hynny i'r cyfarfod hwn. Fel aelodau o'r Awdurdod Tân, mae eu hymrwymiad pennaf i fuddiannau'r Awdurdod ond mae'n bwysig eu bod yn clywed sylwadau ar ran trethdalwyr Gwynedd wrth ffurfio eu barn, maes o law, fel aelodau o'r Awdurdod.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn un gweddol gryno ac mae wedi ei atodi i'r adroddiad hwn. Mae sylw ynddi i bedwar amcan:-

Amcan 1 - Parhau i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi.
Amcan 2 - Cael ffordd newydd o gwrdd â chostau'r Awdurdod
Amcan 3 - Amddiffyn ein holl gymunedau drwy gynllunio criwiau diffodd tanau yn well
Amcan 4 - Edrych sut gallwn wneud mwy o bethau ar gyfer ein cymunedau

**4** RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Yn amlwg, mae cysylltiad rhwng yr amcanion unigol gyda goblygiadau o’r naill ar y llall, yn arbennig felly’r amcan o sut y bwriedir cwrdd â chostau’r Awdurdod. Fodd bynnag, nodir y sylwadau drafft isod er ystyriaeth:-

Amcan 1 - Parhau i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi

Mae’n amlwg mai hwn fydd prif ffocws gwaith y Gwasanaeth ac mae’n dda gweld y lleihad cyson sydd wedi bod mewn tanau damweiniol yn y cartref ers 2001/02. Nid yw’r adroddiad yn manylu llawer ar sut y mae hynny am ddigwydd ond mae’n amlwg mai gwaith ataliol fydd y prif ffocws. Awgrymir bod angen gwella ymhellach ar y cyswllt rhwng y Gwasanaeth Tân a gwasanaethau’r Cyngor ymhellach fel bod modd targedu hyd yn oed fwy ar y gwaith hyn er mwyn rhoi sylw i rai sy’n byw mewn aelwydydd bregus.

Amcan 2 - Cael ffordd newydd o gwrdd â chostau'r Awdurdod

Mae’r ddogfen yn nodi tri posibilrwydd ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol o £2.3m a ragwelir, sef:-
a) gallai cynghorau sir Gogledd Cymru gyda’i gilydd gyfrannu £2.3miliwn yn ychwanegol i’r Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn, gan gynyddu eu cyfraniadau blynyddol cyfunol i £34.2miliwn erbyn 2019/20; NEU
b) gallai’r Awdurdod Tân ac Achub wneud toriadau mawr i’w wasanaethau brys ac ataliol i gynnal lefel bresennol y cyfraniadau gan y cynghorau sir hyd at 2019/20 o leiaf; NEU
c) cymysgedd o’r ddau, gyda’r cynghorau sir yn cyfrannu mwy o arian, a’r Awdurdod Tân ac Achub yn torri ar ei gostau rhedeg ei hun.

Mae ail amcan yr Awdurdod Tân yn anelu i “sicrhau bod ganddo ddigon o arian i ymorol am ei gostau rhedeg yn yr ychydig flynyddoedd nesaf”. Mae dogfen ymgynghori’r Awdurdod Tân yn nodi bu toriadau ers 2011/12 heb fawr o newid amlwg yn lefel y gwasanaeth (heb gau gorsafoedd tân na diswyddo diffoddwyr tân yn orfodol). Wrth edrych ymlaen, gwyddom fod gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru ‘fwlch cyllido’ a’r dewisiadau’n mynd yn anos.

Daw’r swmp o arian (refeniw) yr Awdurdod Tân trwy gyfraniadau ariannol (ardoll neu ‘levy’) sy’n daladwy gan y chwe cyngor sir yng Ngogledd Cymru, cymesur â’u poblogaeth. Felly, bydd unrhyw addasiad i gyllideb yr Awdurdod Tân yn cael effaith uniongyrchol ar benderfyniadau trethu’r cynghorau sir unigol, a’u gallu i wario ar wasanaethau sirol eu hunain.

Mae dogfen ymgynghori’r Awdurdod Tân yn cynnig opsiwn ‘c’, fyddai’n golygu cynyddu’r gyllideb o 4%, h.y. cynyddu’r swm maent yn derbyn gan y cynghorau sir o tua £1.4miliwn o 2017/18 ymlaen, ynghyd a defnyddio cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod Tân yn 2018/19.

Derbyniwyd gwybodaeth gan gyfrifydd yr Awdurdod Tân ar 04/11/2016 yn cadarnhau byddai’r cynnydd hynny yn ardoll yr Awdurdod Tân yn golygu cost ychwanegol o

£253,859 (+4.45%) i Gyngor Gwynedd am 2017/18 (yr ardoll yn codi o £5,598,221 i £5,852,079). Byddai'r cynnydd +4.45% i Gyngor Gwynedd uwchlaw'r cynnydd +4% cyfartalog ar draws y gogledd oherwydd effaith diweddaru'r ffigyrau poblogaeth.
Pe bai angen cynnwys yn ardoll ychwanegol o £253,859 yn amcangyfrifon Cyngor Gwynedd ar gyfer 2017/18, byddai hynny cyfwerth â cynnydd +0.44% yn y dreth cyngor sy'n daladwy gan bobl Gwynedd, neu yn ychwanegu £253,859 i'r swm i'w ddarganfod trwy dorri gwasanaethau i bobl Gwynedd (e.e. gallasai hynny fod cyfystyr â chau 3 canolfan hamdden £99k, + cau Neuadd Dwyfor £98k, + cau un canolfan ailgylchu £50k).

Mae'r ffordd y mae'r Gwasanaeth Tân yn delio gyda hyn anodd i'w dderbyn a'r man cychwyn yw na ddylai ardoll yr Awdurdod Tân gynyddu mwy na'r setliad ariannol cyfartalog ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Hynny yw, erbyn 2017/18, byddai'n afresymol i ystyried cynnydd mwy na +0.1% yn yr ardoll. Fodd bynnag rhaid pwyso a mesur unrhyw ddadleuon dros gynnydd wedyn yn erbyn y cwestiwn a ydym yn grediniol nad oes mwy o effeithlonrwydd i'w ganfod a beth yw goblygiadau unrhyw doriad posibl uwchben hynny i'n trigolion fel ein bod yn gallu pwyso a mesur hynny yn erbyn yr angen i gynyddu'r Dreth Gyngor neu ddarganfod arbedion eraill ein hunain.

Ymhellach, mewn blynyddoedd dilynol bydd cyllidebau Llywodraeth Cymru'n fwy heriol, ac o ganlyniad mae setliadau llywodraeth leol yn debygol o fod llymach. Felly, dylai'r Gwasanaeth Tân ddechrau adolygu cost eu gwasanaethau rŵan, er mwyn gallu gweithredu arbedion trawsnewid / effeithlonrwydd pellach yn ystod 2017/18 - 2019/20.

Mae'n annerbyniol fod y Gwasanaeth Tân yn cynnig cynnydd +4% mewn gwariant yn 2017/18 ac am osgoi arbedion trawsnewid / effeithlonrwydd tan 2019/20.
Nid yw'n hollol eglur, ond deallaf fod rhai aelodau ar yr Awdurdod Tân wedi nodi eu bwriad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn gyntaf, 2017/18. Os yw'n bosib iddynt wneud hynny tra'n cadw lefel darbodus o gronfeydd wrth gefn, yna byddai'n fwy derbyniol na chynyddu'r ardoll. Fodd bynnag, dylid cyplysu hynny gyda bwriad i brysuro'r gwaith i'r Gwasanaeth Tân ddarganfod arbedion trawsnewid / effeithlonrwydd erbyn 2018/19, ddim gohirio cynyddu'r ardoll. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi gweithredu 'pontio' cyllidebol o'r fath hyn yn y ddwy flynedd diwethaf.

Os, fel dywedai dogfen ymgynghori'r Awdurdod Tân, mai'r "dewis amlwg felly yw cael gwared ar un o'r injanau tân amser cyflawn o Wrecsam, a thorri 24 o swyddi ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn", yna dylid cynllunio i gyflawni hynny cyn Ebrill 2018.
Diau fydd Cyngor Gwynedd awydd annog cynrychiolwyr y Cyngor ar yr Awdurdod Tân i barhau gyda'r herio y maent wedi bod yn ei wneud hyd yma ar ran bobl Gwynedd.

Amcan 3 - Amddiffyn ein holl gymunedau drwy gynllunio criwiau diffodd tanau yn well

Fel pob corff cyhoeddus, mae gofyn i'r Gwasanaeth Tân adolygu eu trefniadau staffio ac mae'r drefn RDS (Y Diffoddwyr Wrth Gefn) yn allweddol yn hyn o beth. Mae'n amlwg mai'r cyfan y bwriedir ei wneud eleni yw parhau gyda'r adolygiad o'r trefniadau RDS ond mae'r Awdurdod fel pe wedi tynnu yn ôl o adolygu amodau diffoddwyr tân amser cyflawn. Fel Cyngor, rydym o'r farn ei fod yn ymarfer da cael

deialog cyson ynglyn ag amodau gwaith gyda chynrychiolwyr y gweithlu er mwyn ceisio diogelu gwasanaethau rheng flaen. Byddem yn annog yr Awdurdod i wneud yr un peth.

Mae pob corff cyhoeddus yn gorfod cadw llygad barcud ar ei drefniadau gwaith er mwyn gwasgu unrhyw beth sydd ddim yn ychwanegu gwerth allan o'r system a darparu gwasanaeth mor effeithiol â phosib allan o'r adnoddau sydd ar gael. Diau y bydd y Cabinet am holi'r cynrychiolwyr ar yr Awdurdod Tân am drefniadau'r Awdurdod i sicrhau bod hynny'n digwydd naill ai yn fewnol neu trwy ddysgu o waith arloesol mewn ardaloedd eraill.

Amcan 4 - Edrych sut gallwn wneud mwy o bethau ar gyfer ein cymunedau

Mae parodrwydd y Gwasanaeth Tân i fod yn ymestyn gorwelion ei staff ar gyfer diwallu anghenion ehangach i'w groesawu. Mae'n dda hefyd weld cydnabyddiaeth bod cyrff sector cyhoeddus wedi gweld gostyngiadau mwy yn eu cyllidebau.

Mae hyn yn berthnasol, o bosib, i'r drafodaeth ar Amcan 2 ond yr hyn a awgrymir yw bod yw bod angen y gwytnwch i ymateb i argyfyngau fel y maent yn codi ond bod lle i fod yn hyblyg yn y defnydd o adnoddau y tu allan i'r achlysuron mwy prysur hynny. Mae hyn i'w groesawu. Yma eto, byddwn yn awgrymu bod lle i drafodaethau lleol uniongyrchol i weld pa fath o gyfleon allai godi. Fodd bynnag, fel yr oedd ymateb y cyhoedd i'r awgrym yn yr ymgynghoriad y flwyddyn diwethaf yn awgrymu, mae hyn yn amcan amserol a doeth.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Mae'r dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad ar 12 Rhagfyr a bydd yr Awdurdod Tân yn ei ystyried yn dilyn hynny. Yn amlwg bydd effaith unrhyw benderfyniad cyllidol wedyn yn bwydo drwodd i benberfyniad y Cyngor hwn ar lefel y Dreth Gyngor i drigolion y sir ym Mawrth, 2017

## 7 YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Dyma sylwadau'r Swyddogion Statudol

**Prif Weithredwr:-** Mae'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar y ddogfen i'w groesawu. Mae'n amlwg bod yr Awdurdod Tân, fel pob corff cyhoeddus, yn ywnebu penderfyniadau anodd. Fodd bynnag, fel y mae'r ymateb arfaethedig y Amcan 2 yn nodi, mae'n rhaid ystyried y penderfyniadau hynny yng nghyd-destun ehangach eu heffaith ar drigolion a threthdalwyr ar draws Gogledd Cymru yn gyffredinol.

**Pennaeth Cyllid:-** Awdur ar y cyd o'r adroddiad

**Swyddog Monitro:-** Mae'r adroddiad yn argymell ymateb gan Gyngor Gwynedd

i’r ymgynhoriad gan yr Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru sydd wrth gwrs yn awdurdod cyhoeddus ei hun. Fe nodir ym mharagraff 2 o’r adroddiad fod y Cyngor yn penodi aelodau i’r Awdurdod a chrynhoir natur a statws perthynas yr aelodau a’r awdurdod a’u cyfrifoldebau tuag ato. Mae’n briodol eu bod yn ymwybodol o safbwynt y Cyngor yma ond dylid dwyn mewn cof eu bod yn ddarostyngedig i ofynion yn eu swyddogaeth amgen ynglyn a chymryd penderfyniadau ac ystyried cyngor.